AMGUEDDFA CYMRU

# Canllawiau Iechyd a Diogelwch ar gyfer defnyddio pecynnau synhwyraidd yr Amgueddfa

Mae gennym ni ddetholiad o adnoddau synhwyraidd i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol wrth iddyn nhw ymweld â'r amgueddfa.

Mae'r adnoddau'n cynnwys clustffonau canslo sain, teganau ffidlan ac offer synhwyraidd eraill. Mae rhestr o adnoddau dysgu'r pecynnau i'w gweld drosodd.




## Gwybodaeth

- Nid asesiad risg yw hwn.
- Canllawiau yw'r rhain i unrhyw un sy'n helpu dysgwyr ag anghenion ychwanegol i ddefnyddio unrhyw un o'r eitemau yn ein blychau synhwyraidd.
- Mae'r holl eitemau wedi'u darparu gan gyflenwyr addysg ag enw da sy'n dewis ac yn profi cynhyrchion yn ofalus yn unol â'r safonau diogelwch priodol.
- Rhaid cadw llygad barcud ar ddysgwyr sy'n defnyddio'r offer hyn - yn unol â'u hanghenion unigol.

# Manylion adnoddau

**Sylwer - ni fydd pob eitem ym mhob pecyn.**

### Push Pop - pêl ffidlan



- Yn cefnogi dysgwyr aflonydd neu sydd angen ysgogiad synhwyraidd. Gall helpu i ganolbwyntio'r sylw.
- Oedran: 3 oed +

### Sbectol haul i blant



- Mae'n lleihau golau i'r rhai sydd â sensitifrwydd golau.
- Argymhellir goruchwyliaeth oedolion.
- Deunydd: Resin PC.

### Chwyddwydr pren



- Addas i ddarganfod y manylion a'r gweadau manylach yn yr amgueddfa.
- Oedran: 12 mis +
- Lens plastig

### Tortsh LED rwber



- Defnyddiol i ganolbwyntio ar gasgliadau'r amgueddfa.
- Ddim i'w defnyddio yn yr orielau celf.
- Angen goruchwyliaeth oedolion gan ei bod yn cynnwys batris - a allai fod yn berygl tagu.
- Cofiwch barchu ymwelwyr eraill.

### Push Pop - tegan ffidlan.



- Yn cefnogi dysgwyr aflonydd neu sydd angen ysgogiad synhwyraidd. Gall helpu i ganolbwyntio'r sylw. Wedi'i wneud o silicon.

# Manylion adnoddau

**Sylwer - ni fydd pob eitem ym mhob pecyn.**



**Amddiffynwyr clust plant**

- Helpu i leihau lefelau sŵn.
- I ffitio unrhyw blentyn rhwng 6 mis ac 16 oed, ac yn addas i oedolion bach hefyd.
- Yn cydymffurfio ag EN352-1: 2002.



**Lindysyn â phwysau ynddo (2.5kg)**

- Helpu i sicrhau ymdeimlad o lonyddwch trwy leddfu pryder a helpu i bontio'n esmwyth rhwng gweithgareddau.



**Detholiad o offer ffidlan**

- I'r dim ar gyfer lleddfu straen, ymarfer y dwylo, sgiliau motor a gafael. Yn ddelfrydol i ymdawelu neu feddwl.
- Oedran: 5 oed +
- Rhybudd: Ddim yn addas i blant dan 36 mis oed. Darnau bach. Perygl tagu.
- Argymhellir goruchwyliaeth agos gan oedolion.
- Mae eitemau meddal yn cynnwys Neehdoh. Mae Neehdoh wedi'i wneud o gyfansoddyn glud PVA sy'n hypoalergenig, yn ddiogel a ddim yn wenwynig - nid yw'n cynnwys BPA, ffthalatau na latecs felly mae'n ddiogel i fysedd bach.



# Manylion adnoddau

**D.S. - ni fydd pob eitem ym mhob pecyn.**

## Cloc tywod (10 munud)



- Oedran: 3 +
- Mae'n darparu cynrychiolaeth weledol, ymarferol a phendant o amser.
- Defnyddiwch e fel teclyn tawelu neu adnodd amser ymdawelu - gan roi 10 munud i blant fyfyrio a dod at eu hunain.

## Teganau meddal



- Gall teganau meddal fod yn ffynhonnell gysur a chynorthwyo rhai dysgwyr gyda dychymyg ac archwilio.